GOCC

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*15eg Rhifyn*

## Croeso

***Cylchlythyr GOCC*** yw'r lle gorau i'ch cefnogi i gyflwyno GOCC. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i gyflwyno GOCC ... ***rydym yma i chi.***



Mae GOCC yn dod ag ystod ehangach o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (YMO) ac optegwyr dosbarthu yng Nghymru, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #15 yn canolbwyntio ar y canlynol: Mewnwelediad Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru: Rhoi'r Gorau i Ysmygu WGOS1

***Mae Mewnwelediadau Gwasanaeth yn digwydd deirgwaith y flwyddyn a byddant yn cwmpasu ystod eang. Mae'n gyfle i GIG Cymru wrando arnoch chi, wrth i chi gyflawni WGOS, fel y gallwn eich cefnogi'n well.***

Rhaid i bob practis sy'n cyflawni WGOS gymryd rhan mewn tri Mewnwelediad Gwasanaeth bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn rhan o Becyn Ansawdd WGOS, sy'n gysylltiedig â thaliad i Gontractwyr. Yr agweddau eraill ar Becyn Ansawdd WGOS yw Ansawdd ar gyfer Optometreg (rhestr wirio practis i sicrhau ansawdd Byrddau Iechyd) ac adrodd ar y Gweithlu (i helpu i gynllunio gwasanaeth a hyfforddiant).

**Mae'r ail Fewnwelediad Gwasanaeth hwn ar gyfer 2024/5 yn ymwneud â Rhoi'r Gorau i Ysmygu WGOS1. Yr effaith fydd;**

- Deall eich profiadau yn well gan ofyn i gleifion a ydynt yn ysmygu.
- Deall sut mae cleifion yn cael eu cefnogi i roi'r gorau i ysmygu.
- Nodi unrhyw adnoddau pellach y gallwn eu darparu i gefnogi'r proffesiwn.
- Cyfleu canfyddiadau y tu allan i Gymru ac ychwanegu at y gronfa ymchwil a gwybodaeth yn y maes hwn.

Dilynwch:

https://forms.office.com/e/K9AiBtXKvj

**Rhaid cwblhau'r Mewnwelediad Gwasanaeth hwn erbyn 07/02/25**

## ? Cwestiynau allweddol

- **Pawb:** A ydw i wedi darllen y canllawiau Mewnwelediad Gwasanaeth?
- **Optometryddion/YMO:** A ydw i wedi cwblhau'r Mewnwelediad Gwasanaeth ac wedi argraffu'r dystysgrif cwblhau?
- **Contractwyr:** A ydw i wedi cefnogi fy ymarferwyr i gwblhau'r Mewnwelediad Gwasanaeth ac wedi cadw cofnod o'u holl dystysgrifau cwblhau?

Os **na,** gweithredwch nawr:

- Canllawiau Mewnwelediad Gwasanaeth cyrchu Mewnwelediadau Gwasanaeth - GIG Cymru
- Cyrchwch arolwg Mewnwelediad Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu: https://forms.office.com/e/K9AiBtXKvj

## Crynodeb

### Beth?

- Ar gyfer yr ail Mewnwelediad Gwasanaeth: "Rhoi'r Gorau i Ysmygu WGOS1", rhaid i bob Optometrydd ac YMO sy'n cyflawni WGOS gwblhau'r Mewnwelediad Gwasanaeth gorfodol. Os ydych yn gweithio ar draws mwy nag un practis, cwblhewch yr arolwg unwaith yn unig, yn yr hyn a ystyriwch yw eich prif weithle.

### Pryd?

- Rhaid cwblhau'r arolwg erbyn **07/02/25**

### Sut?

- https://forms.office.com/e/K9AiBtXKvj

## Cymorth i chi

Optometreg Cymru yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

**E-bost:**

Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

**Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn:**

Cylchlythyrau WGOS - GIG Cymru

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services